GIG CYMRU NHS WALES Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales	**Cyfeirnod:** ICC 40/TP **Rhif y Fersiwn:** 3.0 **Dyddiad yr adolygiad nesaf:** Chwefror 2028

POLISI CORFFORAETHOL AR REOLI BRIGIADAU O ACHOSION

Datganiad Polisi

Bydd y Polisi hwn yn sicrhau bod Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) yn cyflawni ei nodau, ei amcanion, ei gyfrifoldebau, a'i ofynion cyfreithiol yn dryloyw ac yn gyson mewn perthynas â brigiad o achosion neu achos o haint o fewn y gwasanaethau a ddarperir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae brigiadau o achosion ac achosion o heintiau yn dod â chanlyniadau difrifol i ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys marwolaethau, afiachedd, trallod, oedi cyn cael triniaeth ac effeithiau ar ddarparu gwasanaethau ac ar y staff sy'n sâl ac yn absennol o'r gwaith. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu sawl gwasanaeth clinigol i'r cyhoedd, mewn amrywiaeth o safleoedd a lleoliadau gofal iechyd. Mae'n hanfodol sylweddoli'n gynnar bod brigiad o achosion a bod achosion yn cael eu hasesu a'u rheoli'n brydlon ac yn effeithlon er mwyn lleihau'r risg y cant eu trosglwyddo ymhellach.

Mae'r polisi hwn yn rhoi gwybodaeth glir i staff ar bob lefel o'r sefydliad am y gofynion ar gyfer rheoli brigiad o achosion neu achosion cynyddol o haint yn ddiogel ac yn effeithiol. Y nod yw sicrhau bod y staff sy'n darparu gwasanaethau gofal iechyd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gallu adnabod brigiad o achosion neu ddigwyddedd cynyddol yn brydlon, hysbysu'r gweithwyr proffesiynol angenrheidiol a rhoi mesurau sylfaenol ar waith mewn modd amserol i atal heintiau rhag lledaenu ymhellach.

Bydd hyn yn cynorthwyo aelodau'r Tîm Rheoli Brigiadau o Achosion (OCT) i reoli'r brigiad o achosion neu'r achos yn effeithiol; rheoli lledaeniad pellach, rheoli cyfathrebiadau, monitro cyfraddau heintiau a nodi ac adrodd yn ôl ar bwyntiau dysgu.

Mae'r polisi hwn yn rhan o Bolisi Atal a Rheoli Heintiau (IPC) y sefydliad ac mae'n cyd-fynd â'r canlynol:

- Y Fframwaith ar gyfer Rheoli Brigiadau o Achosion neu Achosion o Haint mewn Safleoedd Gofal Iechyd Acíwt yng Nghymru (Chwefror 2024), sy'n darparu canllawiau ar gyfer pob lleoliad y tu mewn a'r tu allan i'r GIG lle darperir gwasanaethau'r GIG.
- Cynllun ar gyfer Brigiadau o Achosion o Glefydau Trosglwyddadwy yng Nghymru (Rhagfyr 2023), sef y fframwaith ar gyfer rheoli pob brigiad o achosion o glefydau trosglwyddadwy sydd â goblygiadau i iechyd y cyhoedd ledled Cymru.

Ymrwymiad Polisi

Un o swyddogaethau pwysicaf y system diogelu iechyd yng Nghymru yw diogelu'r cyhoedd rhag brigiadau o achosion o glefydau trosglwyddadwy. Mae hyn yn ei gwneud

yn ofynnol i'r system diogelu iechyd sefydlu a rhoi trefniadau rheoli brigiadau o achosion effeithiol ar waith ar gyfer bygythiadau o glefydau trosglwyddadwy wrth iddynt godi.

Mae brigiadau o achosion ac achosion o haint yn arwain at ganlyniadau difrifol i ddefnyddwyr gwasanaethau a sefydliadau'r GIG, gan gynnwys; marwolaeth, morbidrwydd, trallod, oedi cyn triniaeth ac effeithiau ar ddarparu gwasanaethau i Staff. Bydd gan bob Ymddiriedolaeth a Bwrdd Iechyd (BI) yng Nghymru bolisi ar gyfer y trefniadau ar gyfer rheoli brigiadau o achosion neu achosion o haint yn eu sefydliad sy'n berthnasol i'r defnyddiwr gwasanaeth a'r staff.

Manylir ar ganllawiau ar gyfer rheoli brigiad o achosion yn ddiogel ac yn effeithiol neu gynnydd o ran achosion o haint ym mhennod 1.5 y Llawlyfr Cenedlaethol ar Atal a Rheoli Heintiau (NIPCM) i Gymru. Mae angen i bob sefydliad, gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, gael polisïau a gweithdrefnau clir a chyfredol sy'n cadw at y canllawiau statudol a thechnegol a chanllawiau atal a rheoli heintiau cyfredol ar gyfer dihalogi dyfeisiau meddygol. Dylid adolygu'r rhain bob 3 blynedd o leiaf neu wrth i dystiolaeth neu ganllawiau technegol newydd ddod i'r amlwg.

Wrth gydymffurfio ag egwyddorion canllawiau statudol Dyletswydd Ansawdd (2023), mae sefydliadau gofal iechyd ac unigolion sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau yn gyfrifol yn ôl y gyfraith am ddarparu gofal diogel ac effeithiol a pharhau i wella safonau. Mae hyn yn berthnasol i atal croes-heintio a lleihau risgiau trosglwyddo trwy roi gweithdrefnau brigiadau o achosion a/neu achosion o haint ar waith yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae Cod Ymarfer Cymru Gyfan ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd (2014) (Safon 7) hefyd yn nodi: *Rhaid i bolisïau a fydd yn helpu'r IPC fod yn eu lle ac ar gael yn hawdd i'r holl staff… Rhaid i gorff GIG Cymru, mewn perthynas ag atal a rheoli risgiau heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, fod â'r polisïau craidd priodol ar waith.*

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ymrwymo i wneud y canlynol:

- Diogelu defnyddwyr gwasanaeth, staff neu ymwelwyr rhag niwed neu'r risg o haint wrth ddefnyddio neu ddihalogi dyfeisiau meddygol neu gyfarpar gofal.
- Bodloni'r safonau yn y canllawiau statudol a thechnegol a'r canllawiau Atal a Rheoli Heintiau.
- Bodloni safon ar gyfer dihalogi a defnyddio dyfeisiau meddygol sy'n cyd-fynd â gofal diogel ac effeithiol a ddisgrifir yn y Ddyletswydd Ansawdd.
- Defnyddio arferion gorau wrth reoli a dihalogi dyfeisiau meddygol a chyfarpar gofal.
- Darparu dealltwriaeth glir o'r strwythurau sefydliadol a lefelau'r cyfrifoldebau ar gyfer rheoli brigiad o achosion neu gynnydd o ran achosion o haint.
- Sicrhau bod systemau ar waith i roi sicrwydd i'r arweinydd Gweithredol bod prosesau diogel ar waith, yn cael eu monitro a bod achosion difrifol yn cael eu hadrodd a'u rheoli'n effeithlon, a bod unrhyw wersi a ddysgir yn cael eu trosi'n gamau gweithredu.

- Darparu'r hyfforddiant a'r wybodaeth angenrheidiol i staff sy'n ymwneud â rheoli brigiad o achosion neu achosion cynyddol o haint.
- Asesu a chofnodi cydymffurfedd â'r polisi hwn a pholisi rheoli achosion a digwyddiadau ICC.
- Cynaladwyedd a dim allyriadau carbon wrth reoli gwaith dihalogi lle nad yw'n peryglu diogelwch cleifion.

Mae'r Polisi hwn yn nodi ymrwymiad y sefydliad i sicrhau bod yr holl brosesau sy'n ymwneud â rheoli brigiad o achosion neu ddigwyddedd cynyddol sy'n ymwneud â heintiau yn cael eu cynnal o fewn ac ar ran Iechyd Cyhoeddus Cymru yn unol â'r safonau a'r canllawiau presennol a argymhellir.

Polisïau Ategol a Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig
Mae'r holl bolisïau a'r gweithdrefnau corfforaethol ar gael ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru

- Cynllun ar gyfer Brigiadau o Achosion o Glefydau Trosglwyddadwy yng Nghymru (Rhagfyr 2023), sef y fframwaith ar gyfer rheoli pob brigiad o achosion o glefydau trosglwyddadwy sydd â goblygiadau i iechyd y cyhoedd ledled Cymru.
- English
- Cymraeg
- Fframwaith ar gyfer Rheoli Brigiad o Achosion neu Achosion o Haint mewn Safleoedd Gofal Iechyd Acíwt yng Nghymru (Chwefror 2024).
- Llawlyfr Cenedlaethol ar Atal a Rheoli Heintiau (NIPCM) Pennod 3 - Achosion o Heintiau Gofal Iechyd, Brigiadau o Achosion a Gormodedd Data.

Cwmpas

Yr holl staff a gyflogir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae'n gyfrifoldeb ar holl weithwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru i gadw at yr argymhellion a wneir yn y ddogfen bolisi ategol. Yn arbennig o berthnasol i'r rhai sy'n gweithio ar neu o fewn lleoliadau clinigol a gwasanaethau diogelu iechyd ac IPC (gan gynnwys y rhai ar gontractau anrhydeddus neu dros dro, a chontractwyr ar y safle).

Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dilyn yr uchod ar Reoli Brigiad o Achosion neu Achosion o Haint mewn Safleoedd Gofal Iechyd Acíwt yng Nghymru a'r egwyddorion sydd ynddo. Nid oes gan ICC Ymgynghorydd Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy dynodedig ar gyfer rheoli achosion yn fewnol ond bydd yn defnyddio arbenigedd y Gwasanaeth Diogelu Iechyd pe bai achos yn codi.

Datganiad o Frigiad o Achosion neu Achos

Os oes pryder ynghylch cynnydd yn nigwyddedd haint, neu frigiad o achosion ymhlith eu defnyddwyr gwasanaeth neu staff, dylid cysylltu â'r Tîm AwaRe am gyngor ar 0300 00 300 32, a fydd yn hysbysu'r Ymgynghorydd ar Ddyletswydd.

Dylid hefyd gysylltu â'r Nyrs Arweiniol ar gyfer IPC gan ddefnyddio'r e-bost HARP IPC Corfforaethol generig.

Rhaid llenwi ffurflen digwyddiad DATIX, a fydd yn sicrhau bod y Pennaeth Nyrsio, yr Arweinwyr arbenigol perthnasol, y Nyrs Arweiniol ar gyfer IPC a thîm Iechyd a Diogelwch y safle hefyd wedi cael eu hysbysu.

Bydd y Fframwaith ar gyfer Rheoli Brigiad o Achosion o Haint neu Achos o Haint mewn Safleoedd Gofal Iechyd Acíwt yng Nghymru (Chwefror 2024) yn cael ei ddilyn, a ategir gan y Cynllun ar gyfer Brigiadau o Achosion o Glefydau Trosglwyddadwy yng Nghymru (Rhagfyr 2023).

Rolau a Chyfrifoldebau – Cyfathrebu

Bydd y **Nyrs Arweiniol ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau** (LNIPC) yn sicrhau bod y polisi hwn yn parhau i fod yn gyson â'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer arfer diogel a bydd yn adolygu yn unol â'r dyddiad adolygu neu cyn hyn gan ystyried datblygiadau newydd.

Bydd y Nyrs Arweiniol ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau wedi sefydlu perthnasoedd cadarn gyda'i Thîm Diogelu Iechyd (HPT) lleol / Ymgynghorydd Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy / Ymgynghorydd Diogelu Iechyd (CCDC/CHP). Bydd perthnasoedd o'r fath yn cynnwys cyswllt rheolaidd a dull dwy ffordd o rannu gwybodaeth am achosion, clystyrau a brigiadau o achosion posibl neu achosion o haint.

Llunio adroddiadau ar frigiadau o achosion yn ymwneud â lleoliadau Iechyd Cyhoeddus Cymru ac adrodd i'r Arweinydd Gweithredol ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau ac yn y pen draw y Prif Weithredwr

Mae **Tîm Diogelu Iechyd ICC** yn gyfrifol am waith dilynol ar achosion, clystyrau, a brigiadau o achosion o glefydau heintus. Mae **Tîm AWARe** yn rhan o'r Tîm Diogelu Iechyd ac yn rheoli'r ymateb acíwt i adroddiadau o glefydau hysbysadwy a chlystyrau o glefydau heintus yn ddyddiol. Mae'r Tîm Diogelu Iechyd yn gweithio'n agos gyda thimau'r Byrddau Iechyd a'r Awdurdodau Lleol i reoli achosion diogelu iechyd o dan Gynllun Rheoli Achosion o Frigiadau Cymru.

Mae gan **Reolwyr ac Arweinwyr Rhaglen** gyfrifoldeb i sicrhau bod eu staff, gan gynnwys staff dros dro, ee staff banc a locwm, yn ymwybodol o'r polisi hwn, bob amser yn cadw ato a bod ganddynt fynediad at yr adnoddau priodol i gyflawni'r gweithdrefnau angenrheidiol.

Bydd Rheolwyr ac Arweinwyr Rhaglen yn sicrhau bod cydymffurfedd â'r polisi hwn yn cael ei fonitro'n lleol ac yn sicrhau bod eu staff yn cyflawni eu gofynion hyfforddi gorfodol Atal a Rheoli Heintiau yn unol â Dadansoddiad Anghenion Hyfforddi'r Sefydliad.

Bydd rheolwyr yn gyfarwydd â'r canllawiau rheoli heintiau a byddant yn gorfodi'r amser gwahardd angenrheidiol i staff gadw draw o'r lleoliad gwaith.

Bydd rheolwyr yn monitro cofnodion absenoldeb salwch eu tîm ar y Cofnod Staff Electronig gan ddefnyddio'r cod priodol. Yn ogystal â hyn, rhaid iddynt sicrhau bod unrhyw frigiad o achosion a amheuir o haint neu achos unigol o haint difrifol yn cael ei adrodd drwy system rheoli digwyddiadau DATIX ac yr hysbysir y Nyrs Arweiniol ar gyfer IPC, Pennaeth Ystadau ac Iechyd a Diogelwch a Rheolwr Iechyd a Diogelwch eu hisadran cyn gynted â phosibl. Byddant yn sicrhau bod gan y Tîm Rheoli Brigiadau o Achosion yr holl wybodaeth angenrheidiol a byddant yn sicrhau bod eu tîm yn cydweithredu ag unrhyw Ymchwiliad dilynol i Frigiad o Achosion.

Dylid cwblhau dogfennaeth i gadw cofnod parhaus o bawb sy'n gysylltiedig (defnyddwyr gwasanaeth a/neu Staff) gan ddefnyddio Atodiad 1 fel enghraifft.

Mae gan **bob aelod o staff** gyfrifoldeb personol a chorfforaethol am sicrhau bod eu harferion clinigol a'r staff y maent yn eu rheoli neu'n eu goruchwylio yn cydymffurfio â'r polisi hwn. Rhaid iddynt sicrhau eu bod yn cwblhau'r hyfforddiant atal a rheoli heintiau sy'n berthnasol i'w maes gwaith.

Os daw staff yn ymwybodol o ddigwyddedd uwch o heintiau ymhlith cydweithwyr a chleifion, rhaid iddynt hysbysu eu Rheolwr, y Nyrs Arweiniol ar gyfer IPC, Pennaeth Ystadau ac Iechyd a Diogelwch a Rheolwr Iechyd a Diogelwch eu Hadran.

Rhaid i staff gadw at Bolisi 'Rheoli Presenoldeb yn y Gwaith GIG Cymru'. Rhaid iddynt gymryd cyfrifoldeb trwy osgoi lleoliadau gwaith pan fyddant yn dangos symptomau o haint a chadw at yr amser gwahardd gofynnol ar ôl i'r symptomau ddod i ben.

Asesiadau Effaith	Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd ar gael ar dudalennau gwe polisïau.
Cymeradwywyd gan	Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella
Dyddiad Cymeradwyo	04 Chwefror 2025
Dyddiad Adolygu	04 Chwefror 2028
Dyddiad Cyhoeddi:	19 Mawrth 2025
Grŵp gydag awdurdod i gymeradwyo polisïau ategol	Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella
Y Cyfarwyddwr Gweithredol/Cyfarwyddwr Atebol	Claire Birchall, Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd a Nyrsio
Author	Samantha Matthews, Pennaeth Nyrsio ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau

Ymwadiad

Os yw dyddiad adolygu'r ddogfen hon wedi mynd heibio, sicrhewch mai'r fersiwn rydych yn ei defnyddio yw'r fersiwn fwyaf cyfredol, naill ai drwy gysylltu ag awdur y ddogfen neu ag Uned Busnes y Bwrdd.

Mae hon yn ddogfen reoledig, a chedwir y prif gopi gan Uned Busnes y Bwrdd

Er y gellir argraffu'r ddogfen hon, y fersiwn electronig a bostiwyd ar y rhyngrwyd yw'r prif gopi. Nid yw unrhyw gopïau argraffedig o'r ddogfen hon yn cael eu rheoli. **Ni** ddylid cadw'r ddogfen hon ar yriannau lleol neu rwydwaith ond dylid ei chyrchu o'r rhyngrwyd bob amser.

Crynodeb o adolygiadau/diwygiadau

Rhif y fersiwn	Dyddiad yr Adolygiad	Dyddiad Cymeradwyo	Dyddiad cyhoeddi	Crynodeb o'r Diwygiadau
F1		Gorffennaf 2018		Fersiwn gyntaf y Polisi Achosion
F2		Tachwedd 2021		Polisi wedi'i wahanu'n Bolisi a Gweithdrefn. Mae canllawiau a pholisïau cenedlaethol wedi cael eu diweddaru.
F3		Chwefror 2025	Mawrth 2025	Adolygiad o'r Polisi Gweithdrefn wedi'i harchifo. Gwiriwyd y polisi yn erbyn y Cynllun ar gyfer Brigiadau o Achosion o Glefydau Trosglwyddadwy yng Nghymru newydd, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2023 a'r Fframwaith ar gyfer Rheoli Brigiadau o Achosion o Haint neu Achosion o Haint mewn Safleoedd Gofal Iechyd Acíwt yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2024. Ychwanegwyd manylion er mwyn cynorthwyo'r rheolwyr ac aelodau staff i adnabod a rheoli agweddau ymarferol ar frigiadau o achosion posibl.

				Dolenni i ddogfennau ac e-byst cyfathrebu wedi'u diweddaru. Diweddarwyd Asesiad o'r Effaith i'r fersiwn ddiweddaraf.

Atodiad 1 Taflen Gofnodi Ddyddiol

<u>UNWAITH YN UNIG y dylid ychwanegu pob aelod o staff a/neu ddefnyddiwr gwasanaeth â symptomau at y rhestr hon</u>

Adran _____ Lleoliad _____ Dyddiad y Symptomau 1af _____

Dyddiad y cysylltwyd â Nyrs Arweiniol IPC/AWARe _____ Gan bwy _____ Rhif Digwyddiad DATIX _____

Dyddiad heddiw	Y dyddiad y dechreuodd y symptomau	Amser Yr amser y dechreuodd y symptomau (cloc 24	Staff (S) neu ddefnyddiwr gwasanaeth (SU)		Blaenlythrennau	Os yw'n staff, dyddiad olaf yn y gwaith cyn y symptomau neu ddyddiad apwyntiad yr SU	Anadlol (R) neu gastro-berfeddol (G)		Os yw'n Anadlol, pa symptomau ?	Os yw'n gastro-berfeddol, a oes unrhyw ddolur rhydd (D) neu chwydu (V)		Symptomau eraill (cyfog, poen yn yr abdomen, blinder ac ati)	Sbesimen wedi'i anfon (dyddiad)	Canlyniad y Sbesimen
			S	SU			R	G		D	V			